



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Cynllun Gweithredu Dementia: 2017-22

Crynodeb o ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 9 Ionawr 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 3 Ebrill 2017

1. Cyflwyniad

Ar 9 Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ‘Y Cynllun Gweithredu Dementia’ arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2017-22 gan ofyn am farn ar y themâu blaenoriaeth a’r camau gweithredu atoddedig. Roedd wedi’i anelu at fyrddau iechyd, awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaethau cymorth o’r trydydd sector a phobl â dementia, eu gofalwyr a’u teuluoedd.

Dechreuodd y broses ymgynghori ar **9 Ionawr 2017** a daeth i ben ar **3 Ebrill 2017**.

2. Y Cyd-destun

Mae ‘Symud Cymru Ymlaen’ yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i greu ‘cenedl sy’n deall dementia’ trwy ddatblygu a gweithredu cynllun cenedlaethol newydd ar ddementia.

Mae ‘Ffyniant i Bawb’ hefyd yn cydnabod yr angen i gymryd camau trawslywodraeth i gefnogi ein poblogaeth sy’n prysur heneiddio.

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi ein hymatebion i bob cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori.

3. Strwythur y Cynllun Gweithredu Dementia

Mae’r cynllun yn amlinellu’r themâu allweddol sydd angen gweithredu ymhellach arnynt dros y pum mlynedd nesaf. Hefyd, byddwn yn adolygu’r ddogfen hon ar ôl tair blynedd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau’n berthnasol ac yn dal i gynnwys targedau priodol.

Cyn cyhoeddi fersiwn ymgynghorol o’r cynllun hwn, cafwyd adborth sylweddol gan randdeiliaid yn dweud eu bod angen i gymorth a gwasanaethau gael eu darparu trwy ‘ddull seiliedig ar hawliau’ a bod camau gweithredu’n ystyried pob elfen o’r llwybr gofal, gan ddechrau gydag ymwybyddiaeth poblogaeth gyfan o ddementia. Felly, mae’r cynllun wedi’i strwythuro gan ddilyn dull llwybr gofal.

4. Yr ymgynghoriad.

Cynhaliwyd cryn dipyn o waith ymgynghori hyd yma, gyda’r gwaith hwnnw’n rhannu’n dair:

- I. Dau weithdy rhanddeiliaid ar gyfer gweithwyr proffesiynol
 - II. Gweithdai ar gyfer y rhai sydd wedi’u heffeithio’n bersonol gan ddementia, ac;
 - III. Ymgynghoriad ffurfiol.
- i) Fe wnaeth 85 o bobl o sefydliadau amrywiol, gan gynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol, yr arolygiaethau, swyddfa’r Comisiynydd Pobl Hŷn, y Colegau Brenhinol a sefydliadau’r trydydd sector, fynychu dau weithdy a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru. Cyfrannodd themâu’r gweithdai hyn at strwythur y ddogfen ymgynghori ac at y camau a argymhellir ynddi.

- ii) Cafodd y Dementia Engagement and Empowerment Project (DEEP) a Chymdeithas Alzheimer eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal cyfres o sesiynau ymgysylltu â'r rhai sydd wedi'u heffeithio'n bersonol gan ddemtia. Cynhaliwyd y digwyddiadau hyn cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol a ddechreuodd ym mis Ionawr. Cafodd themâu'r gyfres gyntaf o ddigwyddiadau eu cynnwys yn fersiwn ymgynghori'r ddogfen, ac roedd yr ail gyfres yn canolbwyntio ar gynnwys y 'Cynllun Gweithredu Dementia drafft'. Mae'r adborth hwn wedi'i ymgorffori yn fersiwn derfynol y cynllun. Hefyd, defnyddiodd y Gymdeithas a DEEP eu dulliau sefydledig o ymgysylltu â'u haelodaeth er mwyn cael adborth ar flaenoriaethau'r cynllun. Ymgysylltwyd â thros 1200 o bobl trwy'r digwyddiadau hyn a'r cyfryngau cymdeithasol.
- iii) Llwyddodd yr ymgynghoriad ysgrifenedig ffurfiol i ddenu 118 o ymatebion a dderbyniwyd trwy ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a oedd ar gael ar y wefan. Dyma'r ymatebion fesul sefydliad:

Unigolion	17
Y Trydydd Sector	15
Sefydliadau'r GIG	35
Awdurdod Lleol	12
Cyrff cyhoeddus / addysg / busnes / cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau eraill	39

Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr lawn o'r ymatebwyr (ac eithrio'r unigolion a'r ymatebwyr hynny a ddewisodd barhau'n anhysbys).

Ni wnaeth pob ymatebydd ateb y cwestiynau'n uniongyrchol; dewisodd rhai peidio ag ateb cwestiwn penodol a chyflwynodd eraill grynodedb o'u safbwyntiau yn hytrach na defnyddio'r ffurflen ar-lein. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb am roi o'u hamser yn ymateb i'r ymgynghoriad.

5. Themâu allweddol yr ymatebion ymgynghori

Cafwyd sawl sylw ar strwythur / iaith gyffredinol y cynllun. O'r adborth hwn, rydym wedi cynnwys:

- Cryfhau'r dull seiliedig ar hawliau gydol y ddogfen
- Iaith sy'n fwy 'person ganolog', gan gynnwys datganiadau sy'n amlinellu beth gall unigolyn sy'n byw gyda demtia a'u teuluoedd a'u gofalwyr ei ddisgwyl ar ôl i'r cynllun gael ei roi ar waith.
- Camau a chanlyniadau bob cam o'r llwybr gofal.
- Y gofyniad bod angen gweithredu pob cam er mwyn ystyried anghenion cefnogi pobl â nodweddion gwarchoddedig ac anghenion ieithyddol penodol.
- Ffocws ehangach o iechyd a gofal cymdeithasol i ddull mwy 'trawslywodraethol'.
- Darn sy'n egluro sut y bydd y cynllun yn cael ei fonitro'n barhaus. Mae hyn yn cynnwys sefydlu 'grŵp sicrwydd cyflenwi a gweithredu demtia' ar wahân. Bydd y grŵp yn cynnwys pobl sy'n byw gyda demtia, gan gynnwys rhai â

dementia cynnar a'u gofalwyr. Bydd gan y grŵp hwn rôl ffurfiol yn adolygu'r cynnydd ar bwynt tair blynedd.

- Cyfeiriadau ychwanegol i gynnwys nodi'r sail dystiolaeth gydol y ddogfen.

Bydd y cynllun terfynol hefyd wedi'i ategu gan fuddsoddiad i weithredu sawl cam allweddol sydd o fewn y cynllun. Bydd hyn yn cynnwys datblygu timau amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a fydd yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer pobl â dementia a'u teuluoedd/gofalwyr. Bydd y broses o greu'r timau hyn hefyd yn cyflawni un o gamau allweddol Ffyniant i Bawb.

Derbyniwyd sawl ymateb i'r ymgynghoriad y barnwyd eu bod y tu allan i gwmpas y darn hwn o waith – ac roeddent yn perthyn i dri maes yn fras:

- Manylion a ddylai gael eu cynnwys mewn cynlluniau gweithredol yn hytrach nag yn y cynllun cenedlaethol.
- Rhai oedd yn effeithio ar ddementia ond a oedd yn cael eu hystyried yn fwy priodol i ffrydiau gwaith eraill.
- Gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen crynodeb o arferion nodedig atodol - byddwn yn cyhoeddi hon yn fuan ar ôl lansio'r cynllun hwn.

O ran y meysydd hynny sy'n awgrymu gwelliannau ar gyfer ymarfer gweithredol, byddwn yn sicrhau bod y grwpiau rhanddeiliaid perthnasol yn cael y wybodaeth hon fel y gallant ei chynnwys yn eu cynlluniau gwaith lle bo'n briodol.

Cofiwch hefyd y bydd y camau gweithredu sydd yn y cynllun gweithredu dementia hwn yn disodli maes blaenoriaeth 10 *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2016-19*, 'Mae Cymru yn wlad sy'n deall dementia', unwaith y caiff ei gyhoeddi.

6. Cwestiynau'r ymgynghoriad a chrynodeb o ymatebion

Mae'r adrannau canlynol yn dangos y prif themâu a gododd o'r ymatebion a'r camau a gymerwyd ers i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys unrhyw themâu ychwanegol yn y cynllun terfynol?

Cafwyd 103 o ymatebion i'r cwestiwn hwn gyda 27 (26%) o ymatebwyr yn teimlo nad oedd unrhyw themâu ar goll. Atebodd y 76 (74%) arall 'ydw' (46 o ymatebwyr) neu 'i raddau' (30 o ymatebwyr).

O'r adborth a dderbyniwyd, cyflwynwyd sawl newid i'r themâu a nodwyd yn y ddogfen, gan gynnwys:

- Pwyslais ar bwysigrwydd ystyried a bodloni anghenion teuluoedd a gofalwyr drwy'r ddogfen.
- Manylion ychwanegol mewn perthynas â'r cynnig amlinellol cychwynnol i dimau amlddisgyblaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn â dementia.
- Pwysleisio pwysigrwydd proffesiynau perthynol i iechyd, fel therapi iaith a lleferydd, iechyd galwedigaethol a ffisiotherapi, o ran cefnogi pobl â dementia a'u teuluoedd / gofalwyr.

- Cydnabod bod pobl â nam ar y synhwyrâu yn ogystal â dementia yn debygol o fod ag anawsterau cyfathrebu ychwanegol. Mae atodiad ar wahân ar gyfer yr holl nodweddion gwarchoddedig wedi'i ychwanegu at y cynllun gweithredu yn ogystal â chymau ychwanegol yn y cynllun.
- Mwy o bwyslais ar rôl y proffesiynau perthynol i iechyd, fel therapi iaith a lleferydd, iechyd galwedigaethol a ffisiotherapi, o ran cefnogi pobl â dementia a'u teuluoedd.
- Nodi y dylid cynnwys pobl â dementia a'u gofalmwr wrth ddatblygu addysg a hyfforddiant.
- Newid pwyslais y thema 'yr angen am ragor o gymorth' o fewn y gymuned i gynnwys pob lleoliad.

Maes penodol o'r cynllun, y teimlai llawer fod angen mynd i'r afael ag ef o fewn thema benodol, oedd gofal lliniarol a'r angen i sicrhau bod gan bobl y wybodaeth a'r cyngor cywir i wneud dewisiadau am eu gofal yn y dyfodol. Ni chafodd ei gynnwys fel thema benodol oherwydd teimlwyd bod angen ystyried yr egwyddorion o alluogi pobl i gael y wybodaeth gywir i wneud dewisiadau ar draws y llwybrau gofal. Fodd bynnag, mae'r cam gweithredu yn yr adran hon yn dweud yn glir y dylai 'tîm yn canolbwyntio ar yr unigolyn' gyfrannu at y ddarpariaeth hon. Hefyd, mae camau gweithredu'r adran hon yn ategu'r broses o weithredu cynllun cyflawni ar gyfer gofal diwedd oes, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017¹.

Cafwyd llawer o sylwadau ychwanegol ar gyflwyno newidiadau i'r camau gweithredu yn hytrach na'r meysydd blaenoriaeth eu hunain, ac mae'r naratif hwn wedi'i gynnwys yn rhan o'r ymateb i gwestiwn 2.

Cwestiwn 2: O fewn pob thema rydym wedi nodi nifer o gamau allweddol arfaethedig. Ydych chi'n credu mai'r rhain yw'r rhai cywir?

Cafwyd 91 o ymatebion i'r cwestiwn hwn gyda 13 (14%) yn credu mai dyma'r camau allweddol cywir. Dywedodd y 78 (86%) arall eu bod yn gywir 'i raddau' (69 o ymatebwyr) gyda'r gweddill (6 ymatebydd) yn dweud 'na'.

Yn sgil yr adborth a gafwyd, mae sawl cam gweithredu naill ai wedi'u newid neu eu symud i adran wahanol o'r cynllun. Ychwanegwyd sawl cam gweithredu ychwanegol at y cynllun hefyd, gan gynnwys:

- Awdurdodau lleol a byrddau iechyd i weithio gyda chymunedau lleol a sefydliadau'r trydydd sector er mwyn eu hannog i agor eu gwasanaethau fel bod pobl â dementia, eu teuluoedd a'u gofalmwr yn gallu cymryd rhan.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru fel bod anghenion pobl â dementia yn cael eu hystyried fel rhan o brosesau cynllunio.
- Camau mwy penodol ar faterion trafndiaeth, tai a chynllunio (gan gynnwys rhagor o gydweithredu rhwng gofal cymdeithasol a thai a'i gwneud hi'n ofynnol i gynllunwyr/cwmnïau trafndiaeth ystyried anghenion pobl sy'n byw gyda dementia).

¹ <http://gov.wales/docs/dhss/publications/170327end-of-lifecy.pdf>

- Annog meddygon teulu i ymgymryd ag elfen ddementia y Gwasanaethau Ychwanegol dan Gyfarwyddyd (DES) a gyflwynwyd yn 2017.
- Adolygu a diweddarau'r DVD ymwybyddiaeth o ddementia ar gyfer meddygon teulu, fel bo'r angen.
- Datblygu llwybr diagnosis, gofal a chymorth sy'n gyson ddealladwy, sy'n ymgorffori'r safonau gofal a'r mesurau canlyniadau.
- Cytuno ar ymagwedd gyffredin at asesiadau ac ymyriadau namau gwybyddol (heblaw am ddementia), gyda gwasanaethau arbenigol asesu'r cof yn cynnig cymorth fel bo'r angen i ofal sylfaenol.
- Sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwyl
- Adolygu gallu a rôl gweithwyr cymorth dementia i sicrhau bod gan bob unigolyn â dementia sy'n byw yn y gymuned weithiwr cymorth dynodedig sy'n gweithio i'r safonau galwedigaethol y cytunwyd arnynt.
- Datblygu swydd Ymarferydd Ymgynghorol Dementia Perthynol i Iechyd Cymru Gyfan a fydd yn rhoi cyngor a chymorth i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol er mwyn llywio gwelliannau'r gwasanaeth.
- Ymateb i argymhellion Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i'r defnydd o feddyginiaeth gwrthseicotig.
- Sicrhau bod y timau newydd "sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn" yn galluogi teuluoedd a gofalwyr i gael gofal seibiant sy'n gallu diwallu anghenion y gofalwr yn ogystal â rhai'r unigolyn sy'n byw gyda dementia.
- Sicrhau bod argymhellion archwiliad cenedlaethol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion o ddementia mewn ysbytai cyffredinol yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys cyfarwyddo byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i fabwysiadu egwyddorion 'Ymgyrch John'.
- Ehangu'r defnydd o Dementia Care Mapping™ fel dull sefydledig o gyflawni ac ymgorffori gofal person ganolog ar gyfer pobl â dementia a sicrhau bod byrddau iechyd yn gweithredu 'Driver Diagram – Mental Health Inpatient Environments for people with dementia'.
- Sicrhau bod unedau iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn wedi cytuno ar lwybrau gofal er mwyn cael gafael ar ofal iechyd corfforol rheolaidd.
- Sicrhau bod mynediad at wasanaethau a chymorth eirioli ar gael fel y gall unigolion gyfrannu a chymryd rhan pan fo awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol tuag atynt.
- Parhau i gyflwyno 'Gwaith da – Fframwaith dysgu a datblygu dementia i Gymru' – gan alluogi pobl sy'n gweithio gyda rhai â dementia i gael y sgiliau i'w helpu i deimlo'n ddigon hyderus a chymwys i'w cefnogi nhw. Bydd hwn ar gael i bob sector gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, asiantaethau camddefnyddio sylweddau, anabledau dysgu, staff argyfwng a staff carchardai.

Er bod nifer o'r ymatebwyr yn teimlo bod targed clir ar wella cyfraddau diagnosis yn beth cadarnhaol, teimlent nad oedd yn ddigon uchelgeisiol. O gofio bod angen i dargedau fod yn heriol ond realistig, rydym wedi cytuno y bydd y targed yn parhau'r un fath ond gydag ymrwymiad i'w adolygu mewn 3 blynedd, a fydd yn cyd-fynd ag adolygiad ffurfiol o'r cynllun llawn.

Cwestiwn 3: Mae'r strategaeth yn disgrifio pa wasanaethau ddylai fod ar gael i bobl a'u teuluoedd a'u gofalwyr i fyw yn dda yn y gymuned cyhyd â phosibl? Beth ydych chi'n ei gredu yw nodweddion allweddol y math hwn o wasanaeth?

Cafwyd 77 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf yn seiliedig ar nifer o themâu cyffredin gan gynnwys:

- Gofal parhaus o'r diagnosis ymlaen.
- Mwy o gymorth/seibiant hyblyg i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr er mwyn galluogi pobl i aros gartref cyhyd â phosib.
- Cymorth sy'n briodol o ran oedran a gallu.
- Cryfhau rôl gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.
- Mynediad cyfartal at ofal a chymorth ar gyfer y rhai â nodweddion gwarchoddedig.

Rydym wedi cryfhau'r themâu hyn ledled y cynllun. Hefyd, byddwn yn defnyddio'r cyfoeth o wybodaeth a gawsom drwy'r ymgynghoriad hwn i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r dull 'tîm sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn'.

Cwestiwn 4: Yn y ddogfen derfynol hoffem gynnwys enghreifftiau o arferion nodedig. Os oes gennych chi unrhyw arferion yr hoffech dynnu sylw atynt, gwnewch hynny yma. *Eglurwch hefyd pam y credwch ei fod yn faes arfer nodedig, h.y. ar sail tystiolaeth, cyflawni achrediad, gwobr ac ati.*

Daeth 67 o ymatebion i'r cwestiwn penodol hwn a oedd yn cwmpasu cyfoeth o arferion nodedig. Felly, law yn llaw â'r ddogfen hon, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o arferion nodedig i gynorthwyo cynllunwyr a chomisiynwyr gwasanaethau i weithredu'r cynllun hwn. Byddwn yn diweddarau'r ddogfen hon fel bo'r angen, fel ei bod yn dal yn berthnasol ac addas i'r diben.

Cwestiwn 5: O fewn y ddogfen, rydym wedi tynnu sylw at fanteision defnyddio teleiechyd, teleofal a thechnoleg gynorthwyol i helpu pobl i fyw'n fwy annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartref eu hunain. Yn eich barn chi beth yw'r heriau a'r rhwystrau i wireddu hyn a sut gallech chi oresgyn y rhain?

Cafwyd 66 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda llawer yn cydnabod y manteision sylweddol y gall technolegau cynorthwyol eu darparu. Roedd y rhwystrau a'r heriau a godwyd yn cynnwys costau prynu cyfarpar a hyfforddiant ar ddefnydd effeithiol o'r dechnoleg / sicrhau bod canllawiau clir ar gael.

Felly, yn y cynllun terfynol, rydym wedi dweud bod galluogi mynediad at dechnoleg a / neu gyfarpar cynorthwyol yn rhan benodol o rôl 'y tîm sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' a ddylai sicrhau bod y sawl sy'n byw gyda dementia (neu ei deulu neu ofalwr) yn cael y wybodaeth gywir er mwyn gwneud defnydd effeithiol o'r dechnoleg.

Hefyd, fel yr amlinellwyd uchod, bydd datblygu 'tîm sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad. Bydd datblygu technolegau teleiechyd, teleofal a thechnolegau cynorthwyol yn gost gymwys yn erbyn y gyllideb hon.

Hefyd, mae pryderon mewn ardaloedd gwledig lle mae'r mynediad at fand eang digon cyflym yn gyfyngedig ar y naw, y gallai hyn rwystro neu atal unigolion rhag cymryd rhan mewn cyfleoedd teleiechyd. Rydym yn disgwyl i brosiect Cyflymu Cymru ehangach Llywodraeth Cymru, a gaiff ei gyflwyno ar draws yr 'adeiladau anoddach eu cyrraedd' yn 2018, ein helpu i chwalu'r rhwystrau hyn.

O fewn y crynodeb o arferion nodedig, rydym hefyd wedi cynnwys enghreifftiau o ddefnydd effeithiol o wasanaethau teleiechyd, teleofal a thechnolegau cynorthwyol.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n credu y bydd y camau allweddol yn cael effaith gadarnhaol ar y cynigion ar gyfer pobl â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol:-

- **Anabledd**
- **Hil**
- **Rhyw ac ailbennu rhywedd**
- **Oedran**
- **Crefydd a chredo a dim crefydd**
- **Tueddfryd rhywiol**
- **Hawliau Dynol**
- **Plant a phobl ifanc**

Cafwyd 73 o ymatebion i'r cwestiwn hwn gyda 30 (41%) yn teimlo y byddai'r camau gweithredu'n cael effaith gadarnhaol ar y nodweddion gwarchoddedig a restrwyd. Dywedodd y 43 arall (59%) bod y camau allweddol yn gywir 'i raddau', gyda'r gweddill (6 ymatebydd) yn dweud 'na'.

Yn fersiwn derfynol y cynllun, rydym wedi nodi'n bendant y bydd angen gweithredu pob cam mewn modd sy'n ystyried anghenion cefnogi pobl â nodweddion gwarchoddedig ac sydd ag anghenion ieithyddol penodol. Hefyd, rydym wedi cynnwys atodiad ar wahân sy'n darparu rhagor o fanylion ar beth sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau eich bod yn ystyried nodweddion gwarchoddedig ym mhob thema a cham gweithredu ar draws y llwybr gofal.

Hefyd, mae pobl sydd â nam ar y synhwyrau a dementia yn debygol o fod ag anawsterau cyfathrebu ychwanegol, felly rydym wedi cynnwys dau gam gweithredu ychwanegol yn y fersiwn derfynol sef:

- Sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwyl
- Cwmpasu rhaglen waith a fydd yn cipio, cofnodi, rhannu a thynnu sylw at anghenion cyfathrebu'r defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi colli un o'u synhwyrau.

Cwestiwn 7: Ydych chi'n credu y bydd y camau allweddol yn effeithio'n gadarnhaol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Daeth 72 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda 30 (42%) o'r farn y byddai'r camau gweithredu'n cael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. O'r 42 arall (58%), roedd un yn teimlo na fyddai'r camau yn cael effaith gadarnhaol, tra dywedodd y 41 arall y byddent yn cael effaith gadarnhaol 'i raddau'.

Roedd y sylwadau a gafwyd yn ategu pwysigrwydd y Gymraeg, yn enwedig o ran rhoi cefnogaeth i bobl hŷn sy'n siarad Cymraeg iaith gyntaf; sut rydym yn bwriadu cynyddu niferoedd staff Cymraeg, ac y dylai'r Gymraeg fod ar gael ar sawl ffurf ysgrifenedig/gweledol.

Mae Fframwaith strategol olynol Mwy na Geiriau... ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn cydnabod ac yn adlewyrchu pwysigrwydd y materion hyn. Mae'r fframwaith yn cyflwyno ein hymrwymiad a'n camau i gefnogi a chryfhau'r broses o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal, yn enwedig gwasanaethau dementia.

Nod fframwaith strategol '*Mwy na geiriau...*' yw cryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rhan ganolog o'r syniad yw y dylai'r gallu i ddefnyddio eich iaith eich hun fod yn elfen graidd o'r gofal – ac nid ychwanegiad dewisol. Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i bobl. Bydd y cynnig rhagweithiol hwn hefyd yn cael ei gryfhau pan gaiff Safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector iechyd eu cyflwyno yn 2018.

Cwestiwn 7: Sylwadau Ychwanegol

Cafodd ymatebwyr gyfle hefyd i ddarparu sylwadau ychwanegol – ac fe fanteisiodd 77 ar hyn.

Hefyd, fe wnaeth sawl ymatebydd ddarparu sylwadau manwl a ffynonellau gwybodaeth bellach – rydym wedi'u hadolygu ac wedi addasu'r ddogfen derfynol fel y bo'n briodol.

Yn y fersiwn ymgynghorol o'r ddogfen, fe wnaethom ddweud y bydd y cynllun gweithredu'n cael ei fonitro gan Grŵp Sicrwydd Cyflenwi Pobl Hŷn sy'n adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Cenedlaethol.

Roedd sawl ymatebydd yn poeni y gallai hyn olygu na fyddai'n mynd i'r afael yn llawn ag anghenion pobl iau â dementia neu y gallai wanhau'r elfen ddementia wrth ystyried anghenion ehangach iechyd meddwl pobl hŷn. Felly, bydd Grŵp Sicrwydd Cyflenwi a Gweithredu ar wahân ar gyfer dementia yn cael ei sefydlu. Bydd aelodau'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr pobl â dementia (gan gynnwys pobl â dementia cynnar) a'u teuluoedd / gofaluwr. Byddwn yn sicrhau bod aelodaeth o'r grŵp hwn yn cael ei hadolygu'n rheolaidd fel ei fod yn addas i'r diben.

ATODIAD A

Rhestr yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Yn ogystal â'r sefydliadau sydd wedi'u rhestru isod, cawsom ymateb gan sawl unigolyn a sefydliad a rhai a oedd yn dymuno parhau'n anhysbys.

ADSS Cymru

Alcohol Concern Cymru

BASW

Canolfan Cydweithredol Cymru Caerffili

CLILC

Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith

Coleg y Therapyddion Galwedigaethol

Company Chemists' Association

Cyngor Sir Ynys Môn

Cymdeithas Alzheimer

Deep

Dementia UK

Fferylliaeth Gymunedol Cymru

Grŵp Cynghori Arbenigwyr Sefydlog Awdioleg

Gwalia Abertawe

Gwasanaeth dementia cynnar – Caerdydd a'r Fro

Housing LIN

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Parkinsons UK

Y Comisiynydd Pobl Hŷn